COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MAWRTH, 27 TACHWEDD 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | AA Pucella | JE Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

146. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Y Cynghorydd RJ Collins

147. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

148. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion Is-bwyllgor (A) Deddf Drwyddedu 2003 dyddiedig 12/07/2018 a chofnodion 25/09/2018 fel cofnod gwir a chywir.

149. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HACNAI

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad, oedd yn gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer Cerbyd Hacni.

Gwnaed y cais gan Ivor Preece, i drwyddedu Mercedes Benz E Class, rhif cofrestru'r cerbyd CF16 XGG, fel cerbyd i eistedd 4 person. Roedd perchennog blaenorol i'r cerbyd ac fe'i cofrestrwyd i ddechrau gan y DVLA ar 29 Ebrill 2016.

Gohiriwyd y cyfarfod am amser byr er mwyn i'r Aelodau gael archwilio'r cerbyd.

Ar ôl ailgychwyn y cyfarfod, dywedodd Rheolwr y Tîm (Trwyddedu) wrth yr aelodau mai 90,912 oedd nifer milltiroedd cyfredol y cerbyd. Dywedodd fod y cerbyd yn syrthio y tu allan i'r Polisi Cerbydau Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd mynediad yn y cerbyd i gadair olwyn, ond roedd canllawiau polisi penodol gyda golwg ar drwyddedu Cerbydau am y tro cyntaf oedd yn syrthio y tu allan i ganllawiau'r polisi a amlinellwyd ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Er gwybodaeth i'r aelodau, darparwyd hanes gwasanaethau gyda'r nifer canlynol o filltiroedd ar gyfer pob un:

01 Awst 2016    16,665

| | |
|---|---|
| 29 Rhagfyr 2016 | 32,640 |
| 14 Awst 2017 | 64,286 |
| 22 Tachwedd 2017 | 79,380 |

PENDERFYNWYD: Bu’r Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu Cerbyd Rhif Cofrestru CF16 XGG fel Cerbyd Hacni.

Sylwodd yr Aelodau fod y cais yn syrthio y tu allan i’r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd yr Aelodau ymhellach fod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu iddo gael ei lacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac roedd enghreifftiau o’r rhain wedi eu disgrifio ym mharagraff 2.4 y Polisi.

Ar ôl archwilio’r cerbyd, teimlai’r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ei ansawdd y tu mewn a’r tu allan a’i nodweddion diogelwch. Felly caniataodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

150. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD HURIO PREIFAT

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio adroddiad, oedd yn gofyn i’r Is-bwyllgor ystyried cais i roi trwydded ar gyfer Cerbyd Hurio Preifat.

Gwnaed y cais gan Joanna Ryan, i drwyddedu Mercedes Vito, rhif cofrestru’r cerbyd VX14 XEB, fel cerbyd i eistedd 8 person. Roedd perchennog blaenorol i’r cerbyd ac fe’i cofrestrwyd i ddechrau gan y DVLA ar 26 Mawrth 2014.

Gohiriwyd y cyfarfod am amser byr er mwyn i’r Aelodau gael archwilio’r cerbyd.

Er gwybodaeth i’r aelodau, darparwyd hanes gwasanaeth dyddiedig 17 Hydref 2018, ac MOT ar 14 Hydref 2018. Edrychodd swyddog gorfodi ar y cerbyd ar 06 Tachwedd 2018 a nifer y milltiroedd yr adeg honno oedd 69,120 a chyflwynwyd y cerbyd mewn cyflwr da heb ddim diffygion gweladwy.

PENDERFYNWYD: Bu’r Is-bwyllgor yn ystyried y cais i drwyddedu Cerbyd Rhif Cofrestru VX14 XEB fel Cerbyd Hurio Preifat.

Sylwodd yr Aelodau fod y cais yn syrthio y tu allan i’r Polisi Trwyddedu ym mharagraff 2.1 oherwydd oedran y cerbyd.

Nododd yr Aelodau ymhellach fod y Polisi ym mharagraff 2.2 yn caniatáu iddo gael ei lacio mewn amgylchiadau eithriadol, ac roedd enghreifftiau o’r rhain wedi eu disgrifio ym mharagraff 2.4 y Polisi.

Ar ôl archwilio’r cerbyd, teimlai’r Is-bwyllgor fod y cerbyd yn eithriadol o ran ei ansawdd y tu mewn a’r tu allan a’i nodweddion diogelwch. Felly caniataodd yr Is-bwyllgor y drwydded.

151. MATERION BRYS

Dim

152. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra byddent yn ystyried yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi eu gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â'r eitemau, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, am y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr a grybwyllwyd felly.

153. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI'U EITHRIO

154. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

155. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU